Sut y dylwn gynnal asesiad risg?

Dylai asesiad risg gynnwys nodi peryglon sylweddol a gyflwynir mewn unrhyw amgylchedd gwaith neu sy'n codi o weithgareddau masnachol a gweithgareddau gwaith.

Dylai werthuso maint y risgiau dan sylw, gan ystyried rhagofalon presennol a'u heffeithiolrwydd.

Mae perygl yn rhywbeth a allai achosi niwed (gall hyn gynnwys gwrthrychau, sylweddau, offer neu beiriannau, dulliau gwaith, yr amgylchedd gwaith ac agweddau eraill ar drefniadaeth y gwaith);

Risg yw'r tebygrwydd o niwed posibl o'r perygl hwnnw os bydd yn digwydd. Bydd maint y risg yn dibynnu ar:

- y tebygrwydd y bydd y niwed hwnnw'n digwydd;
- difrifoldeb posibl y niwed hwnnw, h.y. o unrhyw anaf o ganlyniad i'r risg neu effaith andwyol ar iechyd; a
- y boblogaeth y gallai'r perygl effeithio arni, h.y. nifer y bobl a allai fod wedi'u hamlygu.

Mae'r cyhoeddiad am ddim, 'Pum cam i asesu risgiau', yn rhannu'r broses yn bum cam:

Cam 1 – Chwilio am y peryglon
Os ydych yn gwneud yr asesiad eich hun, cerddwch o amgylch eich gweithle ac edrychwch o'r newydd ar beth y gellid fod yn rhesymol ddisgwyl iddo achosi niwed. Anwybyddwch y pethau dibwys a chanolbwyntio ar y peryglon sylweddol a allai arwain at niwed difrifol neu effeithio ar lawer o bobl. Gofynnwch i'ch cyflogeion neu eu cynrychiolwyr am eu barn hwy. Efallai eu bod wedi sylwi ar bethau nad ydynt yn amlwg i ddechrau. Gall cyfarwyddiadau gweithgynhyrchwyr neu daflenni data hefyd eich helpu i sylwi ar beryglon a rhoi risgiau yn eu cyd-destun cywir. Fel y gall cofnodion damweiniau a salwch hefyd.

Cam 2 - Penderfynu pwy a all gael niwed, a sut
Cofiwch:
gweithwyr ifanc, gweithwyr dan hyfforddiant a mamau beichiog, ac ati a allai wynebu risg arbennig,
glanhawyr, ymwelwyr, contractwyr, gweithwyr cynnal a chadw ac ati nad ydynt o bosibl yn y gweithle bob amser, y cyhoedd neu bobl rydych yn rhannu eich gweithle â hwy, os bydd siawns y gallent gael niwed oherwydd eich gweithgareddau.

Cam 3 – Gwerthuso'r risgiau a phenderfynu p'un a yw'r rhagofalon presennol yn ddigonol neu a ddylid gwneud rhagor
Ystyriwch pa mor debygol y gallai pob perygl achosi niwed. Bydd hyn yn penderfynu p'un a oes angen i chi gwneud rhagor i leihau'r risg ai peidio.

- a allaf gael gwared ar y risg yn llwyr?

- os nad yw hynny'n bosibl, sut y gallaf reoli'r risgiau fel bod niwed yn annhebygol? Wrth reoli risgiau defnyddiwch yr egwyddorion isod, os yw'n bosibl yn y drefn ganlynol:
  - rhowch gynnig ar opsiwn sydd â llai o risg
  - ceisiwch atal mynediad i'r perygl (e.e. drwy warchod)
  - trefnwch y gwaith i leihau amlygiad i'r perygl
  - defnyddiwch gyfarpar diogelu personol
  - darparwch gyfleusterau lles (e.e. cyfleusterau golchi ar gyfer cael gwared ar halogiad a chymorth cyntaf)

Cam 4 – Cofnodwch eich canfyddiadau

Os oes gennych lai na phum cyflogai nid oes angen i chi nodi unrhyw beth yn ysgrifenedig, er mae'n ddefnyddiol cadw cofnod ysgrifenedig o'r hyn rydych wedi'i wneud. Ond os ydych yn cyflogi pum person neu fwy mae'n rhaid i chi gofnodi canfyddiadau arwyddocaol eich asesiad. Mae hyn yn golygu ysgrifennu'r peryglon sylweddol a chasgliadau. Mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich cyflogeion am eich canfyddiadau.

Mae'n rhaid i asesiadau risg fod yn addas ac yn ddigonol. Mae angen i chi allu dangos:

- bod gwiriad cywir wedi'i wneud
- eich bod wedi ar bwy y gallai hyn effeithio
- eich bod wedi delio â'r peryglon sylweddol amlwg, gan ystyried nifer y bobl a allai fod yn gysylltiedig
- bod y rhagofalon yn rhesymol, a bod y risg sy'n weddill yn isel.
- Cadwch y cofnod ysgrifenedig er mwyn cyfeirio ato neu ei ddefnyddio yn y dyfodol.

Cam 5 – Adolygu eich asesiad a'i ddiwygio os bydd angen

Rhywbryd neu'i gilydd byddwch yn cael peiriannau, sylweddau a gweithdrefnau newydd a allai arwain at beryglon newydd. Os bydd unrhyw newid sylweddol, ychwanegwch at yr asesiad i ystyried y perygl newydd. Peidiwch â diwygio eich asesiad ar gyfer mân-newidiadau, na swyddi newydd ychwaith, ond os bydd swydd newydd yn cyflwyno peryglon newydd sylweddol, bydd angen i chi eu hystyried yn benodol a gwneud beth bynnag mae angen i chi ei wneud i leihau'r risgiau i'r eithaf. Sut bynnag, mae'n arfer da i adolygu eich asesiad o bryd i'w gilydd i wneud yn siŵr bod y rhagofalon yn parhau i weithio'n effeithiol.

Mae cyhoeddiadau perthnasol yn cynnwys

L21, Management of health and safety at work, L21, (ISBN 0717624889 – ar gael gan HSE Books)

HSG183, Pum cam i asesu risgiau: astudiaethau achos, (ISBN 0717615804 – ar gael gan HSE Books)

- **A guide to risk assessments requirements – taflen am ddim** [62kb]
- **Pum cam i asesu risgiau – taflen am ddim** [664kb]